# Cynllunio Gweithlu Gweithwyr Cymdeithasol 2016 - 17

## Adroddiad cenedlaethol am y gweithlu gweithwyr cymdeithasol yng Nghymru

Data Cymru

ADSS Cymru
Leading Social Services in Wales
Yn arwain Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru

Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**


CLILC • WLGA

# Cynnwys

Crynodeb gweithredol ..... i
Cefndir ..... 1
Rhagymadrodd ..... 2
Proffil cyffredinol presennol y gweithlu gweithwyr cymdeithasol ..... 3
Gwasanaethau Oedolion ..... 12
Gwasanaethau Plant ..... 12
Gweithwyr cymdeithasol mewn rolau anweithredol a meysydd gwasanaeth eraill ..... 16
Gofynion rhagamcanol y gweithlu gweithwyr cymdeithasol ..... 19

Cynhyrchwyd gan: Uned Ddata Llywodraeth Leol ~ Cymru
Cyhoeddwyd: Mai 2018
www.data.cymru
029 2090 9500
ymholiadau@data.cymru

## Gweithiwr Cymdeithasol – Ffeithluniau allweddol 2016-17



## Gweithwyr cymdeithasol Gwasanaethau Oedolion, 2016-17

**71%** yn gweithio llawn amser

**29%** yn gweithio rhan amser

**9%** swyddi yn wag

**3%** wedi'u llenwi gan weithwyr asiantaeth

### Dechreuwyr

**32%** newydd gymhwyso

**22%** **yn dod o** awdurdod lleol arall yng Nghymru

**4%** **yn dod o'r** sector annibynnol

### Ymadawyr

**17%** ymddeoliad, afiechyd neu farwolaeth

**24%** **yn mynd i** awdurdod lleol arall yng Nghymru

**6%** **yn mynd i'r** sector annibynnol

## Gweithwyr cymdeithasol Gwasanaethau Plant, 2016-17

**81%** yn gweithio llawn amser

**19%** yn gweithio rhan amser

**10%** swyddi yn wag

**3%** wedi'u llenwi gan weithwyr asiantaeth

### Dechreuwyr

**43%** newydd gymhwyso

**18%** **yn dod o** awdurdod lleol arall yng Nghymru

**5%** **yn dod o'r** sector annibynnol

### Ymadawyr

**10%** ymddeoliad, afiechyd neu farwolaeth

**22%** **yn mynd i** awdurdod lleol arall yng Nghymru

**12%** **yn mynd i'r** sector annibynnol

## Gweithwyr cymdeithasol mewn rolau anweithredol a meysydd gwasanaeth eraill, 2016-17

**86%**
yn gweithio llawn amser

**14%**
yn gweithio rhan amser

**4%**
swyddi yn wag

**0%**
wedi'u llenwi gan weithwyr asiantaeth

### Dechreuwyr

**0%**
newydd gymhwyso

**23%**
**yn dod o** awdurdod lleol arall yng Nghymru

**3%**
**yn dod o'r** sector annibynnol

### Ymadawyr

**21%**
ymddeoliad, afiechyd neu farwolaeth

**13%**
**yn mynd i** awdurdod lleol arall yng Nghymru

**4%**
**yn mynd i'r** sector annibynnol

# Crynodeb gweithredol

Cafodd Uned Ddata Llywodraeth Leol ~ Cymru (Data Cymru) ei chomisiynu gan Gofal Cymdeithasol Cymru i gynnal dadansoddiad o'r gweithlu gweithwyr cymdeithasol yng Nghymru am flwyddyn ariannol 2016-17 a rhagamcaniad o'r anghenion am y tair blynedd nesaf. Y prif bwyntiau o ddadansoddiad 2016-17 yw:

## Holl weithwyr cymdeithasol

- Cyflogwyd bron **3,900** o weithwyr cymdeithasol mewn awdurdodau lleol ar ddiwedd Mawrth 2017. Mae hyn yn **cynnydd o 1%** o'i gymharu â'r nifer a gyflogwyd ar ddiwedd Mawrth 2016.
- Mae nifer y gweithwyr Cyfartal ag Amser Llawn (CALl) a gyflogir wedi **cynyddu gan 1%** ers 2016, o 3,530 i 3,562.
- Yn 2017, roedd **82%** o'r gweithwyr cymdeithasol a oedd yn gweithio mewn adrannau gwasanaethau cymdeithasol yn fenyw. Mae hyn wedi aros yr un fath ers dechrau casgliad data yn 2009.
- Cynyddodd y gweithwyr cymdeithasol a oedd newydd gymhwyso a ymunodd â'r gwasanaeth gan 11% gyda 165 o bobl yn ymuno yn ystod 2016-17 o'u cymharu â 149 yn 2015-16.
- Cynyddodd y gweithwyr cymdeithasol a ddechreuodd rôl yn 2016-17 o awdurdod lleol tu allan i Gymru gan 27% (6 o bobl), gyda 28 o'u cymharu â 22 yn 2015-16.

## Gwasanaethau Oedolion

- Cynyddodd y nifer o gweithwyr cymdeithasol a gyflogwyd mewn Gwasanaethau Oedolion, **gan 2.4%** ers 2016 – y cynnydd cyntaf mewn Gwasanaethau Oedolion ers 2013-14
- Ar 31 Mawrth 2017, mae swyddi gwag mewn Gwasanaethau Oedolion wedi gweld cynnydd o'r flwyddyn blaenorol – 9.3% o swyddi gweithiwr cymdeithasol CALl yn wag o'u cymharu â 7.1% yn 2016.
- Yn ystod y tair blynedd nesaf hyd 2019-20, rhagamcenir y bydd nifer y (CALl) a gyflogir mewn Gwasanaethau Oedolion **yn codi 9%**.

## Gwasanaethau Plant

- Ers 2016, mae nifer y gweithwyr cymdeithasol a gyflogir mewn Gwasanaethau Plant **wedi gostwng 0.5%**.
- Mae'r gweithwyr cymdeithasol sy'n gadael i awdurdod lleol arall yng Nghymru wedi cynyddu gan 6 o bobl (60%), ac mae gadawyr i'r sector annibynnol wedi cynyddu o 24 yn 2016 i 32 yn 2017.
- Ar 31 Mawrth 2017, mae swyddi gwag mewn Gwasanaethau Plant **wedi cynyddu i 9.9%** swydd gweithiwr cymdeithasol CALl yn wag, o'u cymharu â 9.2% yn 2016.
- Yn ystod y tair blynedd nesaf hyd 2019-20, rhagamcenir y bydd nifer y (CALl) a gyflogir mewn Gwasanaethau Plant **yn codi 6%**.

## Rolau anweithredol a meysydd gwasanaeth eraill

- Cyflogwyd **680** o weithwyr cymdeithasol mewn rolau anweithredol a rolau eraill lle barnwyd bod cymhwyster gwaith cymdeithasol yn hanfodol ar ddiwedd Mawrth 2017, o'u cymharu â 663 yn 2016.
- Ers 2016, mae nifer y gweithwyr cymdeithasol a gyflogir mewn rolau anweithredol a meysydd gwasanaeth eraill **wedi cynyddu 3%**.
- Ar 31 Mawrth 2017, mae'r swyddi gwag mewn rolau anweithredol a meysydd gwasanaeth eraill **wedi gostwng i 3.7%** o'u cymharu â 5.5% yn 2016.

- Yn ystod y tair blynedd nesaf hyd 2019-20, rhagamcenir y bydd nifer y gweithwyr cymdeithasol CALl a gyflogir mewn rolau anweithredol a meysydd gwasanaeth eraill yn codi **1%**.

# Cefndir

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru (cynt Cyngor Gofal Cymru), Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) Cymru ac Uned Ddata Llywodraeth Leol ~ Cymru (Data Cymru) yn gweithio mewn partneriaeth i gasglu, dadansoddi ac adrodd data cynllunio'r gweithlu gweithwyr cymdeithasol (SWWP) oddi wrth awdurdodau lleol yng Nghymru. Nod y gwaith yw ategu gwaith cynllunio am anghenion y gweithlu yn y dyfodol a llywio comisiynu hyfforddiant gweithwyr cymdeithasol yng Nghymru.

Daw'r data a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn o 22 awdurdod lleol Cymru. Gofynnwyd am ddata oddi wrth bob un mewn perthynas â'u gweithwyr cymdeithasol ar gyfer 2016-17 a rhagamcanu ffigurau staffio am y tair blynedd o 2017-18 hyd 2019-20[1]. Cafodd gwybodaeth am niferoedd staff ei hôl-boblogi o ddata wedi ei ddilysu a gasglwyd gan Lywodraeth Cymru drwy'r casgliad blynyddol am staff gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol. Defnyddir data cofrestru gweithwyr cymdeithasol oddi wrth Gofal Cymdeithasol Cymrui ategu'r adroddiad hwn er mwyn dangos proffil oedran a rhyw y gweithlu gweithwyr cymdeithasol.

Ar bwyntiau penodol yn yr adroddiad, caiff awdurdodau lleol Cymru eu grwpio'n rhanbarthau, fel a ganlyn.

**Gogledd Cymru** – Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam

**Canolbarth a Gorllewin Cymru** – Powys, Ceredigion, Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot

**De-ddwyrain Cymru** - Pen-y-bont ar Ogwr, Bro Morgannwg, Caerdydd, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Caerffili, Blaenau Gwent, Torfaen, Sir Fynwy a Chasnewydd

[1] Cytunwyd â'r Cyngor Gofal (nawr Gofal Cymdeithasol Cymru) a'r awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan i leihau cyfnod yr rhagamcaniad o bum mlynedd i dair blynedd ar ddechrau casgliad data 2014-15.

## Rhagymadrodd

Dyma'r nawfed adroddiad blynyddol ar weithlu gweithwyr cymdeithasol awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae'n edrych ar niferoedd cyffredinol y gweithlu a sut mae'r rhain wedi amrywio dros amser. Mae adrannau'r adroddiad yn edrych yn benodol ar yr amrywiaeth yn niferoedd y gweithlu mewn tri maes penodol, sef:


- Gwasanaethau Oedolion;
- Gwasanaethau Plant; a
- Rolau eraill awdurdod lleol lle bernir bod cymhwyster gwaith cymdeithasol yn angenrheidiol.


Mae'r adroddiad hefyd yn ystyried y galw a ragwelir am weithwyr cymdeithasol dros y tair blynedd nesaf, ar sail amcangyfrifon a ddarparwyd gan y 22 awdurdod lleol.

# Proffil cyffredinol presennol y gweithlu gweithwyr cymdeithasol


Roedd bron **3,900 o weithwyr cymdeithasol** wedi eu cyflogi mewn awdurdodau lleol ar ddiwedd Mawrth 2017. Mae hyn yn cynnydd o 1% o'i gymharu â'r nifer a gyflogwyd yn 2016. Mae nifer y rhai Cyfartal ag Amser Llawn (CALl)[2] a gyflogwyd hefyd wedi cynyddu gan 1% ers 2016, gyda chyfanswm o o gwmpas 3,560 CALl ar ddiwedd Mawrth 2017. At ei gilydd, mae'r sefydliad staff CALl wedi cynyddu gan 2% ers Mawrth 2016.

Mewn Gwasanaethau Oedolion y bu'r cynnydd mwyaf, lle mae'r nifer a gyflogir wedi cynyddu gan 5.0% ers 2016, mae'r cynnydd yma yn wahanol i'r flynyddoedd flaenorol. Yn yr un cyfnod mae'r nifer a gyflogir mewn Gwasanaethau Plant wedi cynyddu gan 0.3%. Mae'r nifer a gyflogir mewn rolau anweithredol a meysydd gwasanaeth eraill wedi cynyddu gan 0.4% ers 2016. Mae'r sefydliad staff CALl wedi cynyddu gan 3.4% mewn Gwasanaethau Oedolion a gan 0.4% mewn Gwasanaethau Plant ers Mawrth 2016.








Dengys cofrestr Gofal Cymdeithasol Cymru o weithwyr cymdeithasol fod y mwyafrif (51%) yn 45 oed neu'n hŷn ac mae 22% yn 55 oed neu'n hŷn. Mae hyn yr un peth o'u cymharu â 2016.





[2] Cyfartal ag Amser Llawn (CALl) yw cyfran yr oriau gweithio amser llawn y mae cyflogai wedi ei gontractio i'w gweithio. Fe'i diffinnir yn gontract CALl h.y. 37 awr dan gontract/safonol.

Yn 2017, roedd y mwyafrif o weithwyr cymdeithasol a weithiai mewn adrannau gwasanaethau cymdeithasol yn fenyw (82%). Mae hyn wedi bod yn wir ers dechrau'r casgliad yn 2009. Ledled Cymru roedd hyn yn amrywio o 75% yn Sir Benfro, i 88% yn Sir Ddinbych.




Ym Mehefin 2017, roedd 65% o weithwyr cymdeithasol gwryw a gyflogwyd mewn gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yn 45 oed neu'n hŷn, o'u cymharu â 48% yn y gweithlu gweithwyr cymdeithasol benyw, fel ag yn 2016. Roedd 30% o weithwyr cymdeithasol gwryw yn 55 oed neu'n hŷn, o'u cymharu â 20% o weithwyr cymdeithasol benyw, roedd proffil oedran hwn am weithwyr cymdeithasol gwryw a benyw yn 31% a 19% yn y drefn honnno yn 2016.




Ffynhonnell: Cronfa data cofrestriadau Gofal Cymdeithasol Cymru


Ar 31 Mawrth 2017, cyflogwyd 22% o'r holl weithwyr cymdeithasol yn rhan-amser, cynnydd o'u cymharu â 2016[3]. Yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, cyflogwyd 19% yn rhan-amser, o'u cymharu â 20% yn 2016. Yng Ngogledd Cymru, cyflogwyd 19% yn rhan-amser o'u cymharu ag 20% yn 2016. Yn Ne-ddwyrain Cymru, y ffigur oedd 24% o'u cymharu ag 23% yn 2016.


Ar lefel awdurdod lleol, roedd y ganran o weithwyr cymdeithasol rhan-amser yn amrywio o 9% yn Sir y Fflint, i 37% yn Bro Morgannwg. Mae hyn wedi aros yn debyg i'r amrediad yn 2016.




[3] Cyfartal ag Amser Llawn (CALl) yw cyfran yr oriau gweithio amser llawn y mae cyflogai wedi ei gontractio i'w gweithio. Fe'i diffinnir yn gontract CALl h.y. 37 awr dan gontract/safonol.

Ar 31 Mawrth 2017, gweithiai 44% o weithwyr cymdeithasol awdurdod lleol mewn Gwasanaethau Plant, o'u cymharu â 45% yn 2016. Gweithiai 38% mewn Gwasanaethau Oedolion, yr un peth ag yn 2016, a 18% mewn rolau eraill lle barnwyd bod angen cymhwyster gwaith cymdeithasol, o'u cymharu a 17% yn 2016.









Ar 31 Mawrth 2017, roedd gan Ogledd Cymru 42% o'i weithwyr cymdeithasol mewn Gwasanaethau Oedolion, yr un peth ag yn 2016. Roedd 38% mewn Gwasanaethau Plant, gostyngiad o 40% yn 2016. Yn y Canolbarth a'r Gorllewin, roedd 34% o'i weithwyr cymdeithasol mewn Gwasanaethau Oedolion at 31 Mawrth 2017, o'u cymharu â 33% yn 2016. Gostyngodd Gwasanaethau Plant o 48% yn 2016 i 46% at 31 Mawrth 2017. Yn y De-ddwyrain arhosodd y gyfran yr un peth at 39% mewn Gwasanaethau Oedolion a chododd o 45% i 46% mewn Gwasanaethau Plant. Arhosodd Canolbarth a Gorllewin Cymru at 19% o gweithwyr cymdeithasol a gyflogwyd mewn rolau anweithredol a meysydd gwasanaeth eraill. Cynyddodd Gogledd Cymru gan 1 pwynt canrannol i 19% ac arhosodd y De-ddwyrain at 16%.

**Canran gweithwyr cymdeithasol yn ôl maes gwasanaeth a rhanbarth, ar 31 Mawrth (cyfrif pennau)**

| | Gwasanaethau Oedolion (%) | | | | | | Gwasanaethau Plant (%) | | | | | | Anweithredol a meysydd gwasanaeth eraill (%) | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 |
| Gogledd Cymru | 45 | 45 | 47 | 42 | 42 | 42 | 35 | 38 | 35 | 38 | 40 | 38 | 19 | 17 | 18 | 19 | 18 | 19 |
| Canolbarth & Gorllewin | 34 | 35 | 34 | 33 | 33 | 34 | 47 | 50 | 50 | 48 | 48 | 46 | 19 | 15 | 16 | 19 | 19 | 19 |
| De-ddwyrain Cymru | 38 | 37 | 38 | 39 | 39 | 39 | 43 | 44 | 43 | 44 | 45 | 46 | 20 | 18 | 18 | 17 | 16 | 16 |
| **Cymru** | **38** | **38** | **39** | **38** | **38** | **38** | **42** | **44** | **43** | **44** | **45** | **44** | **19** | **17** | **18** | **18** | **17** | **18** |

Cynyddodd nifer y gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso a ymunodd â'r gwasanaeth gan 11% gyda 165 o bobl yn ymuno yn 2016-17 o'u cymharu â 149 yn 2015-16. Yn ystod 2016-17, ymunodd 106 (64%) o'r rhain â'r Gwasanaethau Plant, gyda 59 (36%) yn ymuno â Gwasanaethau Oedolion a dim yn ymuno mewn rolau eraill. Gadawodd 24 o bobl waith cymdeithasol yn ystod 2016-17, o'u cymharu a 29 yn 2015-16. Gadawodd 8 (33%) o'r rhain rolau mewn Gwasanaethau Oedolion, gadawodd 13 (54%) Wasanaethau Plant a gadawodd 3 (13%) o rolau eraill lle barnwyd bod cymhwyster gwaith cymdeithasol yn angenrheidiol.









**Dechreuwyr sydd newydd gymhwyso yn ôl maes gwasanaeth a rhanbarth, yn ystod y flwyddyn (cyfrif pennau)**


| | Gwasanaethau Oedolion | | | | | | Gwasanaethau Plant | | | | | | Anweithredol a meysydd gwasanaeth eraill | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 |
| Gogledd Cymru | 6 | 9 | 6 | 7 | 7 | 15 | 17 | 22 | 23 | 14 | 10 | 22 | 5 | 3 | 1 | 0 | 1 | 0 |
| Canolbarth & Gorllewin | 5 | 12 | 12 | 14 | 21 | 16 | 48 | 25 | 43 | 44 | 18 | 27 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| De-ddwyrain Cymru | 22 | 12 | 21 | 12 | 20 | 28 | 76 | 77 | 79 | 65 | 70 | 57 | 1 | 0 | 0 | 0 | 2 | 0 |
| **Cymru** | **33** | **33** | **39** | **33** | **48** | **59** | **141** | **124** | **145** | **123** | **98** | **106** | **7** | **3** | **1** | **0** | **3** | **0** |

Lleihaodd dechreuwyr o awdurdod lleol arall yng Nghymru gan 1%, gyda 100 o weithwyr cymdeithasol o'u cymharu â 101 yn 2015-16. Cynyddodd gweithwyr cymdeithasol a ddechreuodd o awdurdod tu allan i Gymru gan 27%, gyda 28 o'u cymharu â 22 yn 2015-16. Lleihaodd gadawyr a adawodd swydd gwaith cymdeithasol oherwydd ymddeoliad, afiechyd neu farwolaeth gan 22% gyda 71 o adawyr o'u cymharu â 91 yn 2015-16. Lleihaodd nifer y dechreuwyr a'r gadawyr am resymau anhysbys rhwng 2015-16 a 2016-17. Cynyddodd nifer y dechreuwyr a'r gadawyr am resymau eraill.





Roedd 9% (336) o swyddi gweithiwr cymdeithasol CALl yn wag ar 31 Mawrth 2017, o'u cymharu â 8% (297) yn 2016. Mae hyn yn dilyn y duedd ers 2015. Mae 2017 hefyd wedi gweld cynnydd yn nifer y swyddi gwag mewn Gwasanaethau Plant o 9.2% i 9.9% ers 2016. Mae swyddi gwag mewn Gwasanaethau Oedolion wedi codi o 7.1% i 9.3%. Ar gyfer 2017, mae swyddi gwag mewn rolau anweithredol a meysydd gwasanaeth eraill wedi gostwng o 5.5% i 3.7% o'u cymharu â 2016.




Roedd 5% (17) o'r holl swyddi gwag CALl yn cael eu 'dal ar agor'[4] ar ddiwedd Mawrth 2017, o'u cymharu â 12% (35) yn 2016. Lleihaodd nifer y swyddi gwag CALl a 'ddaliwyd ar agor' mewn Gwasanaethau Plant o 16 i 4 rhwng 2016 a 2017, gyda 21% o'r holl swyddi gwag a 'ddaliwyd ar agor' ar ddiwedd Mawrth 2017. Roedd 51% mewn Gwasanaethau Oedolion a 28% mewn rolau eraill. Mae hyn yn cymharu â 37% mewn Gwasanaethau Oedolion, 45% mewn Gwasanaethau Plant a 17% mewn rolau eraill ar ddiwedd Mawrth 2016.





(a) Oherwydd talgrynnu, efallai ni fydd swm y labeli data yn 100%





[4] Swyddi gwag a ddelir ar agor ar 31 Mawrth nad oes recriwtio'n digwydd amdanynt.

Mae defnydd gweithwyr asiantaeth i lenwi swyddi gwag yn parhau ar draws gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Yn y Canolbarth a'r Gorllewin arhosodd ddefnydd gweithwyr asiantaeth yr un peth a 2016 at 2.3%. Yn y Gogledd, cynyddodd ddefnydd gweithwyr asiantaeth, o 2.3% i 2.9%, yn y De-ddwyrain cynyddod hefyd o 2.7% i 3.2%. Yr effaith gyffredinol oedd bod ffigur Cymru wedi cynyddu o 2.5% i 2.8% rhwng 2016 a 2017.




Mewn awdurdodau lleol, defnyddir gweithwyr asiantaeth eraill nad ydynt yn rhan o'r sefydliad a ariennir i ategu'r gweithlu gweithwyr cymdeithasol. Yn 2017, gwelodd pob rhanbarth Cymru cynnydd mewn defnydd gweithwyr asiantaeth. Defnyddiodd Canolbarth a Gorllewin Cymru staff asiantaeth i ddarparu nifer cyfartal ag 1.2% pellach o'u sefydliad CALl cyffredinol cynnydd o 2016, yng Ngogledd Cymru roedd yn 1.3% o'u cymharu â 0.6% yn 2016, ac yn y De-ddwyrain roedd yn 1.4% o'u cymharu â 1.3% yn 2016.




## Gwasanaethau Oedolion

Cyflogodd Gwasanaethau Oedolion 1,472 o weithwyr cymdeithasol ar ddiwedd Mawrth 2017. Roedd hyn yn 38% o gyfanswm y gweithwyr cymdeithasol a gyflogwyd gan yr awdurdodau lleol, fel a 2016.

Ers 2016, cynyddodd nifer y gweithwyr cymdeithasol a gyflogwyd mewn Gwasanaethau Oedolion gan 2.4% (34 o bobl).

Cyflogwyd 29% o'r gweithwyr cymdeithasol a gyflogwyd mewn Gwasanaethau Oedolion yn rhan-amser yn 2017, o'u cymharu â 27% yn 2016. Hyn yw'r newid cyntaf yn y ffigur ers 2013.

**Canran y gweithwyr cymdeithasol mewn Gwasanaethau Oedolion sy'n gweithio ar sail rhan amser, ar 31 Mawrth 2017 (cyfrif pennau)**




Yn rhanbarthol, amrywiodd ddefnydd gweithwyr cymdeithasol rhan-amser mewn Gwasanaethau Oedolion, gydag 21% yn y Canolbarth a'r Gorllewin yr un peth ag 2016, 34% yn y De-ddwyrain o'u cymharu â 29% yn 2016, a 27% yng Ngogledd Cymru o'u cymharu â 28% yn 2016.

Yn 2017, llenwodd Gwasanaethau Oedolion 3.2% o'u sefydliad CALl a ariennir â gweithwyr asiantaeth o'u cymharu â 2.5% yn 2016. Mae defnydd gweithwyr asiantaeth mewn Gwasanaethau Oedolion wedi gweld cynnydd am y pedwerydd flwyddyn yn olynol, gyda chynnydd o 0.7 pwynt canrannol yn 2017. Roedd gan De-ddwyrain Cymru y cynnyddd mwyaf o 2.4% i 4.4% rhwng 2016 a 2017.


## Gwasanaethau Plant

Cyflogodd Gwasanaethau Plant 1,717 o weithwyr cymdeithasol ar ddiwedd Mawrth 2017. Roedd hyn yn 44% o gyfanswm y gweithwyr cymdeithasol a gyflogwyd gan yr awdurdodau lleol, o'u cymharu â 45% yn 2016.

Ers 2016, lleihaodd nifer y gweithwyr cymdeithasol a gyflogwyd mewn Gwasanaethau Plant gan 0.7% (12 o bobl). Mae hyn yn dilyn gostyngiad o 0.7% rhwng 2015 a 2016.


Cyflogwyd 19% o'r gweithwyr cymdeithasol a gyflogwyd mewn Gwasanaethau Plant yn rhan-amser, gostyngiad o 20% y flwyddyn cynt.

**Canran y gweithwyr cymdeithasol mewn Gwasanaethau Plant sy'n gweithio ar sail rhan amser, ar 31 Mawrth 2017 (cyfrif pennau)**





Yn rhanbarthol, amrywiodd ddefnydd gweithwyr cymdeithasol rhan-amser mewn Gwasanaethau Plant, gyda 11% yn y Gogledd, gostyngiad o 14% yn 2016, 21% yn y Canolbarth a'r Gorllewin o'u cymharu â 23% yn 2016, a 20% yn y De-ddwyrain yr un peth ag yn 2016.


Yn 2017, llenwodd Gwasanaethau Plant 3.5% o'u sefydliad CALl a ariennir â gweithwyr asiantaeth, o'u cymharu â 2.9% yn 2016. Rhwng 2016 a 2017, cynyddodd Gogledd Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru eu defnydd ar weithwyr asiantaeth gan 1.0 a 1.6 pwynt canrannol yn y drefn honno. Yn De-ddwyrain Cymru roedd lleihad o 0.2 pwynt canrannol i 3.3%





'Ymunodd' 182 o weithwyr cymdeithasol â Gwasanaethau Oedolion yn 2016-17 o'u cymharu â 144 yn 2015-16. Am 2016-17, ymunodd 49% o'r rhain o awdurdodau lleol eraill, y sector annibynnol neu drosglwyddiadau mewnol, gostyngiad o'u cymharu â 2015-16. Roedd 32% o'r sawl a ymunodd newydd gymhwyso, o'u cymharu â 33% yn 2015-16. Ymunodd 16% o dechreuwr â Gwasanaethau Oedolion am resymau eraill, o'u cymharu â 2.8% yn y flwyddyn flaenorol. Ymunodd 1.6% o ddechreuwyr â Gwasanaethau Oedolion am resymau anhysbys, o'u cymharu â 10% yn 2015-16.





(a) Oherwydd talgrynnu, efallai ni fydd swm y labeli data yn 100%




'Ymunodd' 247 o weithwyr cymdeithasol â Gwasanaethau Plant yn 2016-17 o'u cymharu â 216 yn 2015-16. Am 2016-17, roedd 43% o'r rhain newydd gymhwyso, o'u cymharu â 45% yn 2015-16, gyda 45% yn ymuno o awdurdodau lleol eraill, y sector annibynnol neu drosglwyddiadau mewnol, o'u cymharu â 46% yn 2015-16. Ni chofnododd awdrudodau darddiad 3.2% o ddechreuwyr, o'u cymharu â 4.2% yn 2015-16. Ymunodd 8.5% â Gwasanaethau Plant am resymau eraill, o'u cymharu â 4.2% yn 2015-16.




Gadawodd 142 o weithwyr cymdeithasol Wasanaethau Oedolion yn 2016-17, o'u cymharu â 164 yn 2015-16. Am 2016-17, gadawodd 5.6% o'r rhain y proffesiwn gwaith cymdeithasol, o'u cymharu â 10% yn 2015-16. Ymddeolodd 17% a symudodd 34% pellach i awdurdod lleol arall neu'r sector annibynnol. Gadawodd 16% Wasanaethau Oedolion am resymau eraill, tra bod 13% o resymau gadawyr yn anhysbys i'r awdurdod. Roedd rhesymau eraill yn cynnwys ymddiswyddiad (1), ymddeoliad cynnar (1), diswyddiad (1), diwedd contract cyfnod penodol (2), dileu swyddi (3), cytundeb/setliad cilyddol (3) a gadael i cyflogiad yn y sector cyhoeddus (6).





(a) Oherwydd talgrynnu, efallai ni fydd swm y labeli data yn 100%


Mae nifer y dechreuwyr newydd gymhwyso i Wasanaethau Oedolion wedi cynyddu gan 11 o bobl rhwng 2015-16 a 2016-17, a chynyddodd y rhai o awdurdod Cymreig arall gan 3 o bobl. Cynyddodd y nifer o dechreuwyr am rhesymau eraill gan 26. Ychydig o newid oedd yn y niferoedd ym mhob un o'r categorïau eraill.

Gadawodd 269 o weithwyr cymdeithasol Wasanaethau Plant yn 2016-17, o'u cymharu â 205 yn 2015-16. Am 2016-17, 4.8% o'r rhain a adawodd y proffesiwn gwaith cymdeithasol o'u cymharu â 4.4% yn 2015-16. Symudodd 40% i awdurdod lleol arall neu'r sector annibynnol o'u cymharu â 39% yn 2015-16, ac ymddeolodd 10% pellach o'u cymharu â 12% yn 2015-16. Gadawodd 18% Wasanaethau Plant am resymau eraill, tra bod 9.3% o resymau gadawyr yn anhysbys i'r awdurdod. Roedd rhesymau eraill yn cynnwys ymddeoliad cynnar (1), diwedd contract tymor penodol (2), gadael drwy gytundeb/setliad cilyddol (2), gadael i cyflogiad yn y sector cyhoeddus (2), dileu swydd (3), gadael i ymuno ag asiantaeth (3), gadael i ymuno a Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (3) a diswyddo (4).





Mae nifer y dechreuwyr newydd gymhwyso mewn Gwasanaethau Plant wedi cynddu gan 8 pobl i 106, o'u cymharu â 98 yn 2015-16. Mae dechreuwyr o awdurdod lleol arall yng Nghymru wedi lleihau o 52 i 44 ers 2015-16. Mae'r trosglwyddiadau mewnol wedi cynyddu gan 17 o bobl rhwng 2015-16 a 2016-17. Mae dechreuwyr a ymunodd am resymau anhysbys wedi lleihau gan 1 person.





Mae nifer y gweithwyr cymdeithasol a adawodd Wasanaethau Oedolion i awdurdod lleol arall yng Nghymru wedi cynyddu gan 55%, o 22 i 34 rhwng 2015-16 a 2016-17. Mae nifer y gweithwyr cymdeithasol a adawodd ar drosglwyddiad mewnol wedi gostwng o 25 i 21 o bobl rhwng 2015-16 a 2016-17. Mae nifer y gweithwyr cymdeithasol a adawodd am rhesymau eraill wedi cynyddu gan 6 o bobl o'u cymharu â 2015-16.

Mae nifer y gweithwyr cymdeithasol a adawodd Wasanaethau Plant wedi cynyddu gan 31%, o 205 i 269 ers 2015-16. Mae gweithwyr cymdeithasol sy'n gadael i awdurdod lleol arall yng Nghymru wedi cynyddu gan 14 ac mae gadawyr ar trosglwyddiadau mewnol wedi codi o 25 i 48 rhwng 2015-16 a 2016-17. Mae rhesymau eraill am adael wedi cynyddu gan 13 (o 35 i 48), gyda gadawyr am resymau anhysbys yn lleihau gan 7 o bobl ers 2015-16.







# Gweithwyr cymdeithasol mewn rolau anweithredol a meysydd gwasanaeth eraill[5]

Ledled Cymru, cyflogwyd 680 o bobl mewn rolau eraill lle barnwyd bod cymhwyster gwaith cymdeithasol yn hanfodol ar ddiwedd Mawrth 2017, o'u cymharu â thua 660 yn 2016. Mae hyn yn cynnydd o 3% (17 o bobl) o'u cymharu â 2016. 18% o weithwyr cymdeithasol ar draws awdurdodau lleol sydd yn y rolau hyn ar ddiwedd Mawrth 2017, o'u cymharu â 17% yn 2016. Cyflogwyd 14% o'r rhain yn rhan-amser, o'u cymharu â 13% yn 2016.

Yn rhanbarthol, amrywiodd y defnydd ar weithwyr cymdeithasol rhan-amser mewn rolau eraill gydag 11% yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, o'u cymharu â 12% yn 2016, 14% yn y De-ddwyrain yn 2017, yr un peth â 2016, a 18% yn y Gogledd, o'u cymharu â 13% yn 2016.


Ledled y 22 awdurdod lleol, amrywiodd ddefnydd gweithwyr cymdeithasol rhan-amser o 0% yng Nghonwy, Merthyr Tydful a Blaenau Gwent, i 32% (13 o bobl) yn Sir Fynwy. Nid oes unrhyw swyddi gweithiwr cymdeithasol mewn adrannau anweithredol Gwasanaethau Cymdeithasol Casnewydd neu feysydd gwasanaeth eraill, sydd wedi bod yn wir ers 2012-13.





[5] Gweithwyr cymdeithasol mewn rolau anweithredol a meysydd gwasanaeth eraill yw'r rheini sydd o fewn awdurdod lleol lle mae cymhwyster Gwaith Cymdeithasol yn angenrheidiol gan yr awdurdod lleol


‘Ymunodd’ 70 o bobl (14%) ag awdurdodau lleol mewn rolau anweithredol neu feysydd gwasanaeth eraill yn ystod 2016-17, o’u cymharu â 60 yn 2015-16. Roedd 35 (50%) o’r rhain o ganlyniad i drosglwyddiadau mewnol, o’u cymharu â 38 (63%) yn 2015-16. Nid oedd yna unrhyw dechreuwyr newydd gymhwyso yn 2016-17. Daeth 22 (31%) o awdurdodau lleol eraill neu’r sector annibynnol, o’u cymharu ag 14 (23%) yn 2015-16. Ymunodd 6 (9%) am resymau eraill o’u cymharu ag 1 (2%) yn 2015-16. Dechreuodd 7 o bobl (10%) mewn rolau anweithredol neu feysydd gwasanaeth eraill am resymau heb eu cofnodi gan yr awdurdod lleol, o’u cymharu â 4 (7%) yn 2015-16.


Gadawodd 89 o bobl rolau anweithredol neu rolau mewn meysydd gwasanaeth eraill yn ystod 2016-17, o’u cymharu ag 91 yn 2015-16. Ymddeolodd 22 (24%) o’r rhain neu adael gwaith cymdeithasol, o’u cymharu â 26 (29%) yn 2015-16. Symudodd 19 (21%) ymlaen i rolau o fewn awdurdodau lleol eraill o’u cymharu â 12 (13%) yn 2015-16, a chafodd 18 (20%) eu trosglwyddo’n fewnol yn yr awdurdod. Gadawodd 17 (19%) y rolau hyn am resymau eraill, o’u cymharu â 15 (16%) yn 2015-16. Gadawodd 9 o bobl (10%) am resymau na chawsant eu cofnodi gan yr awdurdod lleol, o’u cymharu â 12 (13%) yn 2015-16. Roedd rhesymau eraill yn cynnwys gadael drwy gytundeb/setliad cilyddol (1), diwedd contract tymor penodol (1), diswyddiad (1), ymddeoliad gwirfoddol cynnar (1), a gadael i gyflogaeth yn y sector iechyd (gan gynnwys 2 a ymynodd Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS)).



Yn ystod 2016-17, dechreuodd 35 o bobl mewn rolau anweithredol a meysydd gwasanaeth eraill fel trosglwyddiadau mewnol, o'u cymharu â 38 yn 2015-16. Gadawodd 4 y rolau hyn i'r sector annibynnol o'u cymharu â 5 yn 2015-16.







# Gofynion rhagamcanol y gweithlu gweithwyr cymdeithasol


Yn 2015-16, rhagamcanodd awdurdodau lleol cynnydd cyffredinol o 3% i 3,644 o weithwyr cymdeithasol CALl erbyn diwedd 2018-19. Unwaith eto yn 2016-17, rhagamcanir y bydd nifer (CALl) gweithwyr cymdeithasol awdurdod lleol yn cynyddu, y tro yma gan 6% i ragamcaniad o 3,777 CALl erbyn diwedd 2019-20.

Dros yr un cyfnod tair blynedd, rhagamcenir y bydd y niferoedd a gyflogir mewn Gwasanaethau Oedolion a Phlant yn cynyddu 9% a 6% yn y drefn honno, tra bod y nifer a gyflogir mewn rolau anweithredol neu rolau eraill wedi ei ragamcanu i cynyddu 1%.


**Gweithwyr cymdeithasol gwirioneddol a ragamcanwyd, at 31 Mawrth (CALl)**




Mewn Gwasanaethau Oedolion, mae Gogledd Cymru yn rhagweld codiad o 3% yn nifer (CALl) y gweithwyr cymdeithasol erbyn diwedd 2019-20, gyda chodiad o 11% yn y CALl yn cael ei ragweld ar gyfer y Canolbarth a'r Gorllewina De-ddwyrain Cymru.




Mewn Gwasanaethau Plant, mae Gogledd Cymru yn rhagweld codiad o 6% yn nifer y gweithwyr cymdeithasol (CALl) erbyn diwedd 2019-20. Dros yr un cyfnod tair blynedd, mae Canolbarth a Gorllewin Cymru yn rhagweld cynnydd o 4% tra mae De-ddwyrain Cymru yn rhagweld codiad o 6% yn nifer (CALl) eu gweithlu gweithwyr cymdeithasol.



Mewn rolau anweithredol a meysydd gwasanaeth eraill, mae Gogledd Cymru yn rhagweld lleihad o 1% yn nifer y gweithwyr cymdeithasol (CALl) erbyn diwedd 2019-20. Yn yr un cyfnod tair blynedd, mae Canolbarth a Gorllewin Cymru yn rhagweld codiad o 2% a De-ddwyrain Cymru yn rhagweld y bydd nifer y CALl yn y rolau hyn yn cynyddu gan 1%.



**Mae Data Cymru yn rhan o deulu llywodraeth leol yng Nghymru. Mae gennym gysylltiadau gweithio cadarn ac uniongyrchol â llywodraeth leol ers tro. Am flynyddoedd lawer rydym wedi bod yn cefnogi ymdrechion i wella drwy amrediad o gynhyrchion a gwasanaethau a ddyluniwyd yn benodol ar gyfer llywodraeth leol. Mae llawer o'r rhain wedi cael eu defnyddio yn ogystal i gefnogi gwelliannau mewn sefydliadau sector cyhoeddus a phreifat eraill.**

**Nod ein hystod o wasanaethau arbenigol yw eich helpu chi i ddod o hyd i wybodaeth a'i defnyddio'n effeithiol.**

**Am fwy o wybodaeth ewch i** www.data.cymru **neu ffoniwch 029 2090 9500.**